

# Y PAPUR GWYRDD

**Y CYLCHGRAWN I BAWB SYDD AM ACHUB YR AMGYLCHEDD**

# Dewis ffordd newydd ymlaen i'r Ddaear

**- gan osgoi difrod Heathrow a glo brig**

**NEWYDDION A SYNIADAU O BEDWAR BAN AR SUT I DYNNU'N BYD O'R DIBYN**

*Syr John Houghton — Gobaith gydag Obama*
*Dafydd Iwan — Paentio'r byd yn wyrdd ... eto*
*Dyfan Powel — "Morglawdd? ... Yes, Minister"*
*Paul Allen — Ein methiant i ddeall y perygl*
*Barbara Kingsolver — Codi'r ifainc ar gelwydd*
*Chris Franks AC — Fy Nadolig Gwyrdd*

*YSGOL WERDD YNYS MÔN*
*PERYGL Y LLOSGYDDION*
*ASIO'R GYMRAEG A'R AMGYLCHEDD*


Y PAPUR GWYRDD
Rhif 10
Chwefror / Mawrth 2009
PRIS: £1
ISSN 1755-3504

**Y PAPUR GWYRDD:** *Llais Cymraeg annibynnol i'r ymgyrch i barchu'r Ddaear*

Golygydd: Hywel Davies, 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX Ffôn: 01792 798162
Ebost: ypapurgwyrdd1@btinternet.com Gwefan: www.ypapurgwyrdd.com
Cyhoeddir yn ddeufisol ers Awst 2007 gan gwmni Y Papur Gwyrdd Cyf.
Argreffir Y Papur Gwyrdd gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynachlog Nedd, Castell-nedd SA10 7DR yn llwyr ar bapur wedi'i ailgylchu gydag inc llysieuol ar 8 o'r 12 tudalen.

## ANGEN I'R PLEIDIAU ARWAIN AR FATER NEWID HINSAWDD

TROI i fyny heb gyhoeddi o flaen llaw yw'r ffordd sicraf o ddod o hyd i wirionedd sefyllfa. Llwch yn eich llygaid gewch chi, gan rai, o ddweud o flaen llaw eich bod yn bwriadu ymweld.

Dyna pam aethom ati i asesu faint o flaenoriaeth mae pleidiau gwleidyddol Cymru yn rhoi i argyfwng cynyddol Newid Hinsawdd nid trwy ofyn am ddatganiad, ond trwy ymweld â'u Gwefannau ar un dydd penodol.

Cewch ddarllen yr ymateb ar dudalen 8. Ond, yn y cyfamser, a gawn ni annog mwyafrif y pleidiau i wrando ar rybuddion gwyddonwyr megis Syr John Houghton (tud 3) a chryfhau eu harweiniad ar y pwnc.

## CYNNWYS

**3** CYFWELIAD: SYR JOHN HOUGHTON — Rhaid troi ar frys at economïau di-garbon



**4** *Trefi Trawsnewid a Chymdeithas yr Iaith — cydweithio?*
GOLYGYDDOL: Heathrow a Dyffryn Aman — y cysylltiad carbon

**5** DAFYDD IWAN — Paentio'r Byd yn Wyrdd, eto



**6** PAUL ALLEN: Siom Poznan — ydyn nhw'n deall?

**7** DYFAN POWEL — "Morglawdd! Yes, Yes, Minister!"

**8** Pleidiau gwleidyddol Cymru ac argyfwng y Ddaear — asesiad Y Papur Gwyrdd

**9** BARBARA KINGSOLVER: Her hinsawdd ieuenctid America

**11** *Ysgol Werdd Ynys Môn — yn dangos y ffordd ymlaen*



HAF ELGAR: Peidiwn â gwenwyno'r Byd gyda llosgyddion

*LLANW A THRAI tud 6 Y DDAEAR-IADUR tud 10*

# Sut i newid yn 2009 — er mwyn y Byd

## *Awgrymiadau gan rai o leisiau mudiad y Ddaear*

CYHOEDDODD cylchgrawn gwych **Resurgence (Tachwedd Rhagfyr 2008)** nifer o ganllawiau Blwyddyn Newydd gan rai o ffigyrrau amlycaf mudiad y Ddaear. Dyma flas ar rai ohonynt:

**DEEPAK CHOPRA (Arloeswr Meddygaeth Amgen)**: Y peth gorau y gallech wneud ar ran y blaned yw newid eich agwedd. Does dim gobaith o gwbl o wella'r blaned tra bod y gair 'amgylchedd' yn golygu rhywbeth ar wahan i chi eich hun … Ymdriniwch â'r byd gyda gofal a pharch mynwesol.

**BARBARA KINGSOLVER (llenor)**: Pan gaf fy nhemtio i brynu unrhyw beth newydd, offer trydan cyfleus neu bar pert o 'sgidiau, fe wna i fyfyrio ar y gwahaniaeth rhwng 'eisiau' ac 'angen.' Bydd pob anaf i goedwig, a phob allyriad diwydiannol gwenwynig, yn teimlo fel niwed i fy nghorff i fy hun.

**TONY JUNIPER (cyn bennaeth Cyfeillion y Ddaear)**: Rhaid i ni ail-gysylltu â Natur… Felly, cymerwch yr amser i wylio Natur, i ddod i 'nabod pryfed, adar a phlanhigion, a chymerwch gyfaill gyda chi.



Caroline Lucas ASE

**CAROLINE LUCAS (ASE Gwyrdd)**: Defnyddio'r argyfwng ariannol fel cyfle i wneud pethau mewn ffordd wahanol … Pam na wnewch ymuno â'ch undeb gredyd leol a chreu gorchymyn banc rheolaidd fydd yn galluogi nifer yn eich cymuned i fenthyg ar logau rhesymol?

**ANNIE LENNOX (Cerddor, cantores)**: Pam na wnawn ni ddewis gadael ein ceir ble bynnag rydym wedi'u parcio a'u defnyddio dim ond pan mae'n hanfodol?

**CARLO PETRINI (Sylfaenydd y Mudiad Araf)**: Chwilio am fwyd sy'n lleol, yn draddodiadol, yn ffres, yn dymhorol ac wedi'i brynu'n uniongyrchol o'r ffermwyr yn y farchnad … Mae chwilio am fwyd cynaliadwy yn ein helpu i gadw amrywiaeth ddiwylliannol a hunaniaeth pobloedd.

**FIONA REYNOLDS (Cyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol):** Os oes gyda chi 'fysedd gwyrdd', beth am rannu'r sgiliau hyn gyda chyfeillion a theuluoedd yn ystod 2009 gan ddarganfod ffyrdd hwyliog o fod yn wyrdd tra'n helpu cymunedau a llysiau ddechrau tyfu? ■

## Cyd-ymgyrchu dros y Gymraeg a'r Ddaear?

**MAE aelodau mudiad Trefi Trawsnewid Cwm Gwendraeth yn gobeithio cynnal digwyddiadau ar y cyd gyda Chymdeithas yr Iaith Gymraeg.**

Mudiad newydd gychwynodd yn Iwerddon ydy Trefi Trawsnewid sy'n dod â phobl leol ynghyd i drafod sut i baratoi eu cymunedau yn ymarferol ar gyfer byd heb olew.

"Mae'n bwysig iawn ein bod ni'n denu mwy o Gymry Cymraeg lleol i ymuno â'r mudiad pwysig hwn sydd bellach wedi'i sefydlu gennym yn y cwm," meddai un o'r trefnwyr Rebecca Storch.

Dywedodd y byddai'n dda i'r ddau fudiad gydweithredu er mwyn codi ymwybyddiaeth am y perygl i'r amgylchedd ac i roi hwb i'r iaith Gymraeg ar yr un pryd.

Ers cael eu sefydlu mewn cyfarfod cyhoeddus ym Mhontyberem fis Tachwedd diwethaf, mae Trefi Trawsnewid Cwm Gwendraeth wedi sefydlu pump o weithgorau i drafod gwahanol fathau o weithgarwch – Plannu Coed, Esbonio Trefi Trawsnewid, Prosiect Pŵer Hydro, Marchnad Ffermwyr, a Hanes Lleol.

"Mae'n grêt sut mae pethau'n datblygu," meddai Rebecca, "Mae *mix* da o oedrannau gyda ni ond efallai bod angen mwy o bobl ifainc, ac yn sicr mwy o Gymry Cymraeg."

Os hoffech chi wybod mwy am Drefi Trawsnewid, ebostiwch rs@rebeccastorch.com neu drowch at Facebook.

# GWYDDONYDD HINSAWDD YN GWELD GOBAITH GYDAG OBAMA

## *Ond rhaid bwrw ati i greu economïau di-garbon ar frys, medd Syr John Houghton*

**MAE'R gwyddonydd hinsawdd Cymreig Syr John Houghton wedi croesawu Barack Obama fel Arlywydd newydd America gan bwysleisio y byddai arweiniad yr Unol Daleithiau ar gwestiwn Newid Hinsawdd yn cryfhau'r ymdrechion hanfodol i'w ffrwyno.**


Ond mewn cyfweliad arbennig gyda'r **Papur Gwyrdd** o'i gartref yn Aberdyfi ychwanegodd y gŵr oedd ymysg gwyddonwyr y Cenhedloedd Unedig a ennillodd Gwobr Nobel yn 2008 fod angen i Lywodraeth Prydain ddechrau gweithredu, yn ogystal â siarad, am yr amgylchedd.

"Mae gen i obeithion mawr am Barack Obama," meddai Syr John, "Mae'n holl bwysig y caiff wireddu ei addewidion ar faterion amgylcheddol.

"Mae arweiniad America yn hanfodol i lwyddiant ein hymdrechion gan y bydd pawb arall yn dilyn os bydd Washington yn dangos eu bod o ddifrif."

Dywedodd Syr John fod angen gwneud defnydd o'r argyfwng ariannol presennol i greu economi chwildroadol o newydd fydd yn cwtogi'n llym ar allyriadau carbon.

"Mae hyn yn hollol hanfodol," meddai, "Os na lwyddwn, bydd yr hinsawdd yn cynhesu ymhellach ac mae'n bosibl yr aiff Cynhesu Byd-eang y tu hwnt i reolaeth."



**Syr John Houghton: bu'n Athro Ffiseg Atmosfferig yn Rhydychen ac yn Gadeirydd gwyddonwyr Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig**

Esboniodd fod yr Asiantaeth Ynni Rhyngwladol wedi dangos ei bod hi'n hollol bosib i greu economïau di-garbon. Byddai'n broses gostus, ond byddwn ar ein hennill trwy greu swyddi cynaliadwy.

"Mae angen codi tai newydd ynni-effeithiol," meddai, "Mae angen cynhyrchu ceir trydan yn lle rhai petrol, a chreu systemau ynni adnewyddol gan osgoi defnyddio glo os nad oes systemau dal a storio carbon ar gael."

*O ran Prydain, dywedodd fod Llywodraeth Prydain yn dweud y pethau iawn. Roedd y Mesur Newid Hinsawdd, e.e., yn gryfach na dim tebyg yn y byd – 80% o ostyngiad $CO_2$ erbyn 2050.*

"Popeth yn iawn gyda hynny," meddai Syr John, "Mae'r Llywodraeth yn dweud y pethau iawn - ond beth ydyn nhw'n ei wneud? Ydyn nhw'n gwneud digon i gyrraedd eu targedau? Dw i'n credu bod rhaid iddyn nhw weithredu'n gyflymach."

Dywedodd ei fod yn credu'n gryf iawn mewn defnyddio ynni'r llanw. Roedd sawl lle o gwmpas arfordir Prydain lle gellir creu prosiectau fyddai'n sicrhau llif cyson o drydan oherwydd amserau gwahanol y llanw.

Doedd Syr John ddim yn fodlon dweud a oedd yn ffafrio unrhyw ddull arbennig, ond pwysleisiodd fod angen symud ymlaen ar frys i ddefnyddio ynni llanw.

O ran agwedd pobl at broblemau amgylcheddol, dywedodd ei fod yn obeithiol bod pethau'n newid.

"Rwy'n credu bod pobl yn dechrau dod yn fwy ymwybodol o'r bygythiad," meddai, "Mae'r cyfryngau hefyd yn dechrau deffro."

Ond ychwanegodd: "Mae angen mawr i bobl gael eu harwain ar y cwestiwn canolog o bwysig hwn."

►**Pleidiau gwleidyddol Cymru'n amharod i arwain? Tud 8.** ☐

**CYNGOR DESMOND TUTU**

**"Mae Newid Hinsawdd yn realiti. Dibynna bywyd ar amgylchedd cynaliadwy. Heb fyd, dim ond dim fydd – dim adar, dim anifeiliaid, dim coed, dim ni."**

***Yr Archesgob Desmond Tutu wrth gefnogi mudiad amgylcheddol '350'.***

GOLYGYDDOL **HYWEL DAVIES**



# Y cysylltiad Carbon sy'n golygu cynhesu afreolus ymhen 100 mis

TAN yn ddiweddar, fyddai neb yn meddwl bod llawer o gysylltiad rhwng Maes Awyr Heathrow a Dyffryn Aman – dim mwy, efallai, na llinellau gwynion yr awyrennau sy'n hedfan ar draws deheudir Cymru ar eu teithiau rhyngom a'r Unol Daleithiau.

Bellach, mae'r cysylltiad cryn dipyn yn gryfach, a hynny oherwydd cyfraniad y ddau le at y llygredd $CO_2$ sy'n niweidio'r Ddaear.

**Heathrow**: Bydd pawb ledled y byd sy'n poeni am Gynhesu Byd-eang a Newid Hinsawdd, yn



gwybod am benderfyniad Llywodraeth San Steffan i gefnogi cynllun i arllwys mwy o goncrit dros y Ddaear trwy godi trydedd lanfa awyrennau yn Heathrow. Cododd hynny storm o brotestiadau, gan gynnwys o rengoedd Llafur, Ceidwadwyr a'r Rhyddfrydwyr Democrataidd yn San Steffan sy'n gresynu at y llygredd $CO_2$ a achosir a'r effaith ddinistriol ar gymunedau Llundain.

**Dyffryn Aman**: Bydd llai o lawer wedi clywed am ail agor y rheilffordd rhwng Rhydaman a Thai'r Gwaith. Ond, o ran egwyddor, dyma ddatblygiad sydd llawn mor niweidiol i ddyfodol ein planed. Unig swyddogaeth y rheilffordd hon yw cario llwythi o lo brwnt o safle glo brig sy'n cael ei ehangu. Ni fu protestiadau. Addawyd swyddi. Heidiodd ffotograffwyr i gymryd lluniau o'r trên hanesyddol. Newyddion 'da' oedd hyn. Ni soniodd adroddiadau'r cyfryngau am y llygredd $CO_2$ fydd yn arllwys o simneau pwerdy Aberddawen o ganlyniad.

Ar dudalen 3 o'r rhifyn hwn o'r **Papur Gwyrdd**, mae un o wyddonwyr hinsawdd amlyca'r byd – Syr John Houghton – yn ein rhybuddio'n daer unwaith eto bod rhaid i ni dorri 'nôl ar frys ar y carbon rydym yn dal i chwydu'n gynyddol i'r atmosffer. Mae hynny, meddai, yn hollol hanfodol os ydym i gael siawns o gwbl o reoli Cynhesu Byd-eang ac osgoi'r math o Newid Hinsawdd fydd yn peryglu holl ddyfodol dynoliaeth a byd natur.

Nid tynnu coes yn hyn o beth mae gwyddonwyr megis Syr John ynghyd â chyrff ymchwil gwyddonol mwyaf awdurdodol y byd. Ar sail ffeithiau ymchwil cafwyd consensws rhyngddynt, ac mae eu neges a'u rhybuddion bellach yn ddi-amwys: ymhob ffordd bosibl, rhaid i ni dorri ar allyriadau Carbon ar frys.

Pam, felly, dyw'r neges hon ddim yn cyrraedd adre' fel pwnc mwya'r dydd? Dangosodd holiadur barn y llynedd fod 60% o bobl gwledydd Prydain, e.e., yn dal i gredu nad yw Newid Hinsawdd yn cael ei achosi gan ddynoliaeth. Ac mae 40% o'r farn bod gwyddonwyr yn gorddweud y broblem.

Mae rhai yn beio'n benodol effaith y rhaglen deledu warthus honno, **The Great Global Warming Swindle**, a ddarlledwyd gan Channel 4 ar S4C (y bu gwyddonwyr fel Syr John Houghton mor hallt eu beirniadaeth ohoni). Ond, un rhaglen?

Eraill yn beio methiant y wasg a'r cyfryngau i fynd ati o ddifrif i afael ym mhwnc yr amgylchedd a dyfodol y Ddaear. Ac mae hynny, siwr o fod, yn agosach at y marc. Yn wyneb rhybuddion gwyddonwyr bod dynoliaeth mewn twll dwfn iawn, mae cyfrifoldeb mawr ar y wasg i adlewyrchu'r drafodaeth ar sut y cawn ddringo allan o'r twll hwnnw. Diolch i'r BBC ac S4C am raglen **Dyfroedd Dyfnion** a fydd, gobeithio, yn dechrau trafodaeth o ddifrif. Nid mater o wyrddni ffasiynol ydyw.

Ond, onid ar ysgwyddau ein llywodraethau a'n gwleidyddion y gorwedd y bai pennaf? Nid ydynt wedi rhoi arweiniad digonol ar hanfodion y bygythiad i'r Ddaear. Er clywed rhybuddion gwyddonwyr, dal i wrando ar y polau piniwn maen nhw. A chymysglyd iawn, felly, fu eu neges.

Dyna Lywodraeth San Steffan yn cyhoeddi bod rhaid i ni dorri 80% o'n hallyriadau Carbon erbyn 2050 ar un llaw – ond, ar y llaw arall, yn cyhoeddi ymestyn Maes Awyr Heathrow i fwydo teithio dinistriol.

A dyna Lywodraeth Cymru Un yn ein hannog fel unigolion a theuluoedd i ail-gylchu ac insiwleiddio — ond yn caniatau ehangu safleoedd glo brig ac ail-ddatblygu pyllau glo yn y Cymoedd. Ac yn croesawu ehangu Heathrow yn y gobaith o gael gwasanaeth trên cyflym yno – er y difrod i'r amgylchedd a ddaw o'r lanfa a'r awyrennau.

Siom yw sylwi pa mor eilradd yw mater dyfodol y Ddaear i rai o'n prif bleidiau gwleidyddol (tudalen 8). Dyma'r anhawster gwaelodol: dyw ein harweinwyr gwleidyddol ddim yn gwrando ar rybuddion y



gwyddonwyr. Mae Syr John Houghton yn pwyso arnyn nhw eto, felly, i wrando ac arwain.

Yn wyneb rhybuddion syfrdanol mwya' diweddar gwyddonwyr, mai dim ond 100 mis ar y mwyaf sydd gennym cyn colli rheolaeth ar Gynhesu Byd-eang, rhaid i'n gwleidyddion ymateb i'w apêl. Ond rhaid i ninnau'r werin, hefyd, wynebu bygythiad y sefyllfa ein hunain. Wrth addasu'n ffordd o fyw personol er mwyn lleihau'r carbon, dylem fynd ati i gicio pen-olau gwleidyddol yn frwd ac yn aml, er lles y Ddaear a'n plant, fel bod yr etholedig rhai yn cael deall ein bod ni wedi sobri.

Ac i bob Cymro bodlon sy'n pwyso 'nôl yn anghyfrifol, gan ddatgan bod popeth yn dibynnu ar Tsieina ac India, y neges hanfodol yw bod rhaid i ninnau yn y Gorllewin ddangos ein bod ni o ddifrif ynglyn â'r mater hwn, neu fe fydd gweddill y byd yn amharod — yn eu ffolineb — i dalu sylw iddo 'chwaith. ☐

## *Sut mae cwmni recordiau Sain yn helpu'r Ddaear*

# Peintio'r Byd yn Wyrdd ... eto!

**Mae dau beth wedi digwydd i ysbrydoli'r daith tuag at wneud Sain, y cwmni recordiau, yn gwmni gwyrdd.**


Y cyntaf oedd ymuno â chynllun Y Ddraig Werdd, a'r ail oedd marwolaeth gwraig o'r enw Sophia Oka yn America.

A dweud y gwir, cymharol ychydig a wn am Sophia Oka, dim ond ei bod yn llythyru'n gyson o Denver, Colorado, gyda Sain ym mlynyddoedd olaf ei bywyd.

Credaf ei bod o dras Siapaneaidd, ac wedi bod ar un tro yn gantores ei hun, ond un peth sy'n sicr, roedd wedi gwirioni'n lân ar gerddoriaeth Cymru. Archebai'n gyson o Sain, ac yr oedd ei llythyrau'n dangos diddordeb brwd ym materion Cymru.

Pan ddeallodd fy mod i'n Llywydd Plaid Cymru, doedd dim pall ar ei diddordeb, na'i chynghorion doeth. Fe welai frwydr Cymru am ei hunaniaeth fel darlun o frwydr y byd dros gadw cymeriad ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Yna'n sydyn, yng ngwanwyn 2006, daeth y newydd trist fod Sophia Oka yn dioddef o gancr. Aeth i gartref gofal arbennig, ond doedd dim pall ar ei hysbryd na'i llythyron, ac amgylchynnodd ei hun yn ei stafell â lluniau, cryno-ddisgiau a llythyron o Gymru.




**Ym 1970, roedd cân *Peintio'r Byd yn Wyrdd* ar ben y siartiau i Dafydd Iwan a Sain ... a 39 mlynedd yn ddiweddarach maen nhw wrthi'n troi'r byd yn wyrdd mewn ystyr arall.**

## Cariad at gerddoriaeth Cymru a chariad at y Ddaear yn dod ynghyd

**DAFYDD IWAN a hanes y wraig o Denver oedd wedi ysbrydoli staff cwmni Sain i greu Gardd Sophia ...**



Collodd ei brwydr yn y diwedd, ac yr oedd ei neges olaf i Gymru yn un o anogaeth arnom i ddal ati. Ond nid hynny oedd diwedd y stori; cysylltodd ei chwaer â Sain i ddweud ei bod wedi gadael rhodd yn ei hewyllys i'r staff fel gwerthfawrogiad o'u gwasanaeth iddi. Ymhen ychydig fisoedd, sylweddolwyd fod y rhodd yn un sylweddol, a'i bod i'w defnyddio i "wella amgylchedd waith y cwmni".

Wedi trafodaeth fywiog, penderfynodd aelodau'r staff y byddai'r arian yn cael ei wario i wella'r amgylchedd naturiol o gwmpas pencadlys Sain ger Llandwrog, Arfon. Rhan o'r rheswm dros hyn oedd fod y cwmni newydd fod wedi datblygu ei bolisi amgylchedd, ac wedi cofrestru am safon y Ddraig Werdd.

Dros wythnosau cynnar haf 2008, bu clirio mawr ar y tyfiant gwyllt rhwng adeilad Sain a'r afon fechan sy'n nodi'r terfyn, ac agorwyd llwybr drwy'r coed ar lan yr afon. Gosodwyd clawdd terfyn newydd, palwyd rhan o'r tir fel gardd lysiau, codwyd tŷ gwydr, a phlannwyd llwyni o'r newydd.

Dyfed, aelod o'r staff sydd ag anghenion arbennig, yw garddwr brwd y cwmni, ac y mae'n dilyn cwrs garddwriaeth yng Nglynllifon. Eisoes cafwyd cryn lwyddiant ar dyfu amrywiaeth o lysiau a ffrwythau yn yr ardd ac yn y tŷ gwydr.

Mae'n fwriad gan Sain hefyd i blannu coeden am bob albym a gyhoeddir o hyn ymlaen, a'r gobaith yw y bydd y llwybr a'r meinciau ger yr afon yn ysbrydoliaeth ychwanegol i'n hartistiaid, ac yn cyd-fynd gyda chyfeiriad rhai o'u caneuon yn ddiweddar. Does dim dwywaith nad yw'r thema werdd yn amlygu ei hun fwyfwy yng ngwaith ein cerddorion, ac y mae albym ddiweddaraf Gai Toms yn enghraifft ddisglair o hyn.

Ond cychwyn y daith oedd i Sain gael Arolwg Amgylcheddol o'n gweithgareddau a ffurfio Polisi Amgylchedd. Enillwyd safon y Ddraig Werdd i lefel 2, ond y gwaith pwysicaf yw codi ymwybyddiaeth y gweithlu a pharhau i wella. Mae polisi'r cwmni yn nodi'r canlynol:

- Ail-gylchu a lleihau gwastraff
- Cyfrifoldeb ac ymwybyddiaeth y staff
- Rheoli defnydd dŵr ac ynni
- Ystyried ffactorau amgylcheddol wrth ddatblygu prosiect
- Defnyddio adnoddau naturiol i leihau $CO_2$
- Cydymffurfio â'r deddfau amgylchedd
- Atal llygredd
- Gosod targedau i wella'n barhaus.

Dwi ddim am honni am funud fod Sain yn gwmni perffaith yn amgylcheddol, ond llwyddwyd i arbed ynni a dŵr, i gynyddu ail-gylchu'n sylweddol, i waredu gwastraff a deunyddiau yn fwy gofalus, ac i arbed gor-ddefnydd o bapur a defnydd pacio.

Un canlyniad pwysig o hyn yw ein bod wedi arbed arian hefyd! Ond dim ond trwy barhau i fod yn effro i'r perygl o or-ddefnyddio ynni a gor-gynhyrchu gwastraff a niweidio'r amgylchedd, parhau i godi ymwybyddiaeth, a gosod targedau call ond heriol y gallwn dyfu'n gwmni gwyrdd go iawn.

Mi fyddwn yn annog pob cwmni i ddilyn trywydd tebyg. Yn y dyddiau sydd o'n blaenau, mae arbed rhag gwastraff o bob math, ac arbed arian yr un pryd, yn sicr o fod yn gwneud pob math o synnwyr.

*Ac os digwydd ichi alw heibio i Landwrog acw, cofiwch ymweld â Gardd Sophia. Efallai y cewch gip o Bryn Terfel ar lan yr afon yn bwyta un o felonau Dyfed!*

***Ymateb Paul Allen, Cyfarwyddwr Canolfan y Dechnoleg Amgen, Corris, i Gynhadledd Newid Poznan yng Ngwlad Pwyl ...***

# LLAWER ETO HEB DDEALL Y PERYGL I'R DDAEAR



**Canolfan y Dechnoleg Amgen: Economi ddi-garbon yn bosibl**

*BU Paul Allen yn cyflwyno cynllun 'Prydain Carbon Sero' i Gynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd a gynhaliwyd yn ninas Poznan yng Ngwlad Pwyl. Prif nôd y trafodaethau oedd creu dilyniant i Brotocol Hinsawdd Kyoto hanner ffordd rhwng y gynhadledd a gaed yn Bali a'r un holl-bwysig sydd i'w chynnal yn Copenhagen fis Rhagfyr nesaf. Ond siom oedd ymateb Paul i'r hyn a gafodd yn Poznan:*

ROEDD yr ymdeimlad o argyfwng ac uchelgais a gafwyd yn Bali ar goll yn Poznan, ac mae angen hwb newydd o'r uchelfannau ar fyrder os mae'r byd i sicrhau cytundeb newydd addas i wynebu sialens newid hinsawdd …

Yr hyn achosodd syndod go iawn imi oedd bod cymaint o'r cynrychiolwyr yn Poznan heb afael gwirioneddol ar ba mor ddrwg yw sefyllfa hinsawdd ein byd.

Roedd hyd yn oed uwch-arbenigwyr, gwyddonwyr yr NGO's ac arweinwyr gwleidyddol yn methu â gwerthfawrogi bod y dystioliaeth fwya' diweddar ar newid hinsawdd yn dangos sefyllfa llawer mwy difrifol nag a ddisgwylid, hyd yn oed i'r rhai hynny sydd wedi bod yn ei ddilyn yn fanwl ers degawdau.

*Bellach, mae gagendor clir a chynyddol wedi datblygu rhwng targedau cynadleddau a'r angen dybryd am ddi-garboneiddio sydd mor hanfodol yn ôl y gwyddoniaeth mwya' diweddar.*

Canlyniad syfrdanol ond amhosibl ei osgoi yr ymchwil gwyddoniaeth hinsawdd diweddar yw bod rhaid i ni leihau allyriadau tanwydd ffosil i sero mor fuan ag y bo modd. *[Mae hynny'n hollol hanfodol]* os ydym i osgoi ymatebion adborthiannol catastroffig ac i alluogi pydewau naturiol y Ddaear i leihau $CO_2$ yr atmosffer i lefelau diogel, sef ar y mwyaf 350 rhan y filiwn.

Byddai wynebu rheidrwydd di-garboneiddio mor fuan yn golygu tir newydd i drafodaethau byd-eang. Ond y newyddion da yw bod ein cyflwyniadau ni *[o CAT]* ar bosibiliadau carbon sero … wedi dangos bod canlyniadau llwyddiannus yn dal i fod yn bosibl — hyd yn oed heb lo newydd neu ynni niwclear — ac y byddai gweithredu pwrpasol hefyd yn gosod sylfaen ar gyfer gwellhad economaidd byd-eang tymor hir.

Os gweithredwn gyda gweledigaeth yn fuan, byddwn nid yn unig yn sicrhau diogelwch hinsawdd ac ynni, ond byddwn hefyd yn buddsoddi biliynau yn yr economi byd-eang, nid trwy'r banciau, ond yn union lle mae ei angen – sef ar lawr gwlad — gyda chanlyniadau diogel a chlir o'r ynni a arbedwyd neu a grewyd.

Bydd hyn yn sicrhau gwaith i'r gweithlu byd-eang, ac felly'n lleihau effeithiau dirwasgiad, trwy greu mathau newydd o economiau ynni.

Rwy'n teimlo bod *[misoedd]* prysur yn ein hwynebu ar y daith i Copenhagen. ☐

## ENNILL A CHOLLI YM MRWYDR Y DDAEAR

**Crynodeb 2 fis**

### HEATHROW

**CYHOEDDODD Llywodraeth San Steffan eu bod yn caniatau codi 3edd lanfa ym maes awyr Heathrow. Bydd gwrthwynebiad cryf rhyng-bleidiol yn parhau oherwydd y niwed i'r Ddaear, yr effaith andwyol ar gymunedau yn Llundain, a'r chwalfa achosir i fywydau miloedd o bobl.**



### ANTARCTIG YN TWYMO

DANGOSODD ymchwil newydd fod cyfandir rhewllyd Antarctica yn twymo fel gweddill y blaned. Bu amheuwyr yn dadlau bod awgrymiadau o oeri yn y cyfandir deheuol yn gwrth-brofi'r syniad o Gynhesu Byd-eang. Bellach, mae gwyddonwyr Prifysgol Washington, Seattle, wedi dangos bod tymheredd y cyfandir hwnnw, hefyd, wedi bod yn codi ar gyfartaledd ers 50 mlynedd. Yr ofn, felly, yw y bydd haenen iâ yr Antarctica yn toddi, hefyd, fel un yr Arctig, gyda chanlyniadau enbyd i'n hamgylchedd.

### ADEILADU GWYRDD

CYHOEDDODD Llywodraeth Cynulliad Cymru gynllun £81 miliwn i adeiladu hyd at 400 o gartrefi newydd gwyrdd. Gwnaed y cyhoeddiad yn sgil arwyddo 'Siarter Gwyrdd' newydd rhwng y Cynulliad a sefydliadau adeiladu. Mae'r diwydiant adeiladu ymysg y rhai mwyaf niweidiol a gwastraffus o ran ei effaith ar yr amgylchedd.

### CYNNAL CEMEGAU

YN YSTOD uwch gynhadledd fwyd yn Rhufain ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd Banc y Byd grantiau gwerth $1.2 biliwn i geisio delio ag argyfwng bwyd y byd. Ond mae rhan fwya'r arian wedi'i neilltuo ar gyfer gwrteithiau cemegol, chwynladdwyr a chnydau GM. "Mae hyn yn gymorthdal i'r diwydiant cemegol," meddai'r gwyddonydd Indiaidd Vandana Shiva, "Dw i'n dweud wrth lywodraethau i wario chwarter hynny ar ffarmio organig a bydd y problemau ar ben."

### ACHUBWN Y COED!

MAE Greenpeace Canada yn arwain ymgyrch i achub Coedwig hynafol Boreal sy'n cael ei dinistrio gan gwmni Kimberly-Clark er mwyn cynhyrchu Kleenex, Cottonelle, Huggies ac ati. Dylai Kimberly-Clark orffen eu hymosodiad ar fforest sy'n gynefin pwysig i fywyd gwyllt, ac sy'n un o systemau naturiol hynod bwysig y Ddaear, a defnyddio pren wedi'i ail-gylchu yn lle hynny.

### 4 MLYNEDD I OBAMA

DIM ond 4 mlynedd sydd gan yr Arlywydd Barack Obama ac America i osod esiampl werdd i'r byd all ein hachub rhag colli rheolaeth ar Gynhesu Byd-eang, medd y Dr James Hansen, un o uwch swyddogion NASA. Esboniodd fod lefel $CO_2$ yn yr awyr wedi codi y tu hwnt i 386 darn y filiwn. Roedd yn hanfodol i'r lefelau ddechrau gostwng i 350 darn y filiwn o fewn pedair mlynedd, meddai, os ydym i osgoi newid hinsawdd 'catostroffig.'

### RHY HWYR, GYMRO!

Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol na fydd caniatad bellach i safleoedd glo brig newydd weithredu'n agosach na 500 medr i gartrefi. Ond eisoes cafodd safle Ffos y Fran, Merthyr Tydfil, hawl i weithredu mor agos â 35 medr am 17 mlynedd, gan gloddio i ddyfnder o 600 troedfedd, ac achosi 30 miliwn tunnel o allyriadau $CO_2$. Y gred yw mai ar orchymyn gwarthus Llundain y cytunwyd i hynny.

### GWRTHOD PALMENTU

MAE pwyllgor amgylcheddol Cynulliad Llundain yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddeddfu i gyfyngu ar nifer y gerddi yn y ddinas sy'n cael eu palmentu. Dywedir bod y tueddiad cynyddol i greu llefydd parcio concrit i geir, lle bu lawntiau, llwyni a blodau, yn dinistrio patrymau tirddraenio naturiol gan achosi llifogydd.

## *“MORGLAWDD YR HAFREN! —YES! MINISTER!”*

“ANGHOFIWCH EICH ‘RHESTR FER’!”



# Gweision sifil Llundain sy’n gyrru’r morglawdd

**MAE’R morglawdd anferthol dros yr Hafren yn ymddangos yn fwyfwy fel unig ateb y Llywodraeth i dwymo byd-eang, ac yn fwyfwy fel trasiedi i’r gymuned werdd.**

Mae gwendidau’r prosiect yn amlwg, a’r manteision braidd fel cysur i’r gwyrddion.

Mi fyddai’r morglawdd yn costio £15b cyn unrhyw godiad — ac mae’n werth cofio bod cost Olympiad, e.e., yn codi i bedair gwaith y gwreiddiol.

Dim ond 4.5% o ddefnydd ynni presennol Prydain y byddai’n cynhyrchu — ac mae defnydd ynni yn parhau i godi.

### CYFYNGU ARIAN

Ni fyddai’r prosiect yn barod am ddegawd o leiaf, a dim ond 100 mis sydd gennym cyn i effeithiau twymo byd-eang ddod yn ddi-droi ’nôl.

Gyda chymaint yn cael ei wario ar brosiect y morglawdd, bydd y posibilrwydd o ariannu prosiectau eraill yn llai o lawer, er bod prosiectau eraill yn debygol o gynhyrchu mwy o ynni, am lai o arian, ac yn gyflymach.

Sut felly y daeth y prosiect i flaen y llwyfan? Pam mae’r llywodraeth mor gefnogol? A beth yw’r trasiedi mawr o ganlyniad?

Er mwyn ateb y cwestiwn cynta’, rhaid edrych i'r gorffennol – a breuddwyd pensaernïaeth y 50au.

Siaradwch ag unrhyw lobïwr gwyrdd ynglŷn â beth yw’r morglawdd, a'r un cyhuddiad a gewch - sef ei fod yn freuddwyd o'r 50au, y syniad o brofi i Dduw fod dyn yn medru adeiladu rhywbeth mor fawreddog, mor ddrud ac mor epig.

### PROSIECTAU MAWR

Bu’r 50au’n gyfnod cyffrous i bensaerniwyr, cyfnod o wariant cyhoeddus ar brosiectau mawreddog. Oes rhywun yn cofio unrhyw gronfa ddŵr anferth yn cael ei adeiladu yng Nghymru?

Mae’r syniad o forglawdd wedi bodoli ers y 50au, ond erioed wedi ei gynnig o ddifri gan lywodraeth.

Ac eto, mae hi ar frig agenda ‘werdd’ Llafur bellach. I

Gan
DYFAN POWEL
Uned Bolisi Plaid Cymru

ddeall pam, rhaid deall y broses lywodraethol.

Nid y gwleidyddion sy'n cynllunio rhaglenni a phrosiectau mawr y llywodraeth, ond eu gweision, y Gwasanaeth Sifil. Maent wedi ymateb i bob sialens ers canrifoedd yn yr un modd – yn rhesymol, gyda strategaeth sy'n 'ticio bocsys'.

Yn y gorffennol, nid yw prosiect y morglawdd wedi ticio digon o focsys. Doedd dim angen gwario cymaint o arian, ac achosi cymaint o ffws, wrth gynhyrchu ychydig o drydan, a bu profiad a chost aruthrol y twnnel i Ffrainc yn ddigon i droi Ceidwadwyr i ffwrdd o unrhyw brosiect peirianneg mawr.

### TICIO’R BOCSYS

Ond bellach, gyda’r argyfwng amgylcheddol ac economaidd, mae’r Gweinidogion yn creu bocsys newydd i’w gweision eu ticio – sef, ynni gwyrdd a swyddi.

A dyma galon y mater: mae’r morglawdd yn ‘ticio’ cymaint o focsys i’r Gwasanaeth Sifil a’u ‘meistri’ gwleidyddol fel ei fod yn anodd ei wrthod

Mae papur gan y gwasanaeth sifil wedi glanio ar ddesgiau Hain, Murphy, Ed a Dave Miliband ac Alistair Darling yn ddiweddar, ac mae pob un wedi llyfu ei weflau gan freuddwydio am y clôd:

*The ‘Hain/Murphy/Milliband Barrage’ creates thousands of jobs and saves the world from global warming* – dyna’r pennawd mae’r Gweinidogion yn ei weld ac mae’r Gwasanaeth Sifil yn llwyddo i dicio mwy o focsys

Ac felly, mae Llafur yn barod i anwybyddu Cymru, ei llywodraeth, a’r gymuned werdd, gan ddatgan fod y prosiect ar waith.

A dyma’r trasiedi. Gyda’r datganiad canlynol gan Hain ym Mis Mai 2007, bu farw pob prosiect arall a thrafodaeth ar ynni adnewyddol am genhedlaeth: *"The Severn barrage is a project whose time has come."*

Ni fu’n bosib ers hynny i gael trafodaeth ddigonol yn y cyfryngau am gwtogi ar ddefnydd ynni na datblygu mathau eraill o ynni adnewyddol.

### ERGYD ENBYD

Nid yw’n bosib, bellach, sôn am ariannu prosiectau eraill, wrth i dros £15b gael ei daflu i’r morglawdd.

Ond y trasiedi mwyaf yw’r ergyd enbyd i’r gymuned werdd. Mi ddylai’r argyfwng amgylcheddol fod yn gyfle i’r gymuned arwain y byd wrth gyflwyno’r datblygiadau sydd eu hangen. Dylai’r gymuned fod ar flaen y llwyfan, yn llywio’r ddrama.

Ond dim ond un pwnc trafod sydd bellach, ac mae’r gymuned werdd wedi ei herlid yn ôl i’r un hen safle, ar ochr y llwyfan yn gweiddi ‘Na!’ ☐

►Ar 26 Ionawr, cyhoeddodd Gweinidog Ynni San Steffan restr fer o 5 prosiect. Mae’n cynnwys Morglawdd Caerdydd-Weston a dau gynllun Morlyn Llanw a gefnogir gan fudiadau fel Cyfeillion y Ddaear, ond nid y prif gynllun Morlyn. Yr ofn yw mai’r Morglawdd yw ffefryn San Steffan. *[Gol.]*

**RHYBUDD BIANCA JAGGER**

**Nid pwnc amgylcheddol ynysig yw Newid Hinsawdd. Mae’n cyffwrdd â phob rhan o’n bywydau: heddwch, diogelwch, hawliau dynol, tlodi, newyn, iechyd, mudo torfol ac economeg.**

***Bianca Jagger, Llywydd Cyngor Dyfodol y Byd, wrth gefnogi mudiad ‘350’***

# Argyfwng? Pa argyfwng?

**HOLI'R PLEIDIAU**

**YN WYNEB rhybuddion cynyddol sefydliadau gwyddonol, cynhaliodd** Y Papur Gwyrdd **arolwg brys i asesu pa mor ganolog ydy dyfodol y Ddaear i ymgyrchoedd y pleidiau gwleidyddol yng Nghymru.**

Gwnaed yr asesiad yn syml iawn trwy edrych ar flaenddalennau gwefannau rhyngrwyd y pleidiau ar un dydd (sef 8 Ionawr) i weld faint o flaenoriaeth roddwyd i argyfwng ein planed.

A'r canlyniad? Siomedig, ambell un yn bathetig. Un pwnc ymhlith pynciau yw'r amgylchedd i'r rhan fwyaf o'r pleidiau yn lle'r pwnc ddylai fod yn llywio pob trafodaeth – yn arbennig yr economi. Mae'n ymddangos mai atodiad dros dro yw'r 'amgylchedd' i syniadau gwleidyddol sy'n edrych mor 20fed Ganrif!

Dylai ein harweinwyr ail-ystyried y wyddoniaeth yn lle gwrando cymaint, efallai, ar lythyrwyr bas ein papurau newydd.

Dyma'n bras asesiad:

**Plaid Lafur Cymru**: Cicio'r Toriaid oedd blaenoriaeth eu prif dudalen nhw. Roedd modd dod o hyd i bwnc yr Amgylchedd ar restr polisiau 'gwyrdd' y Llywodraeth. Dim sôn am bynciau llosg fel gwynt, llanw, glo, a Heathrow. A dim sylw i gyd-destun argyfwng i'r Ddaear.

**Plaid Cymru:** Wedi eu hachub — o wasgu am 'Newyddion' ychwanegol — gan ddyddiadur ymgyrch personol Chris Franks, AC Bro Morgannwg, wrth iddo gynnal Nadolig Gwyrdd. Ar wahan i hynny, hosan blaenddalen PC heb gynnal y Ddaear o gwbl.

**Plaid Geidwadol Cymru:** Dim gair am y Ddaear ar eu blaenddalen. Dim sôn amdani ymhlith eu hymgyrchoedd. Busnes fel arfer. Ble'r aeth gwyrddni David Cameron ymhlith Ceidwadwyr Cymru?

**Plaid Ryddfrydol Democrataidd Cymru**: Ymgais i ddelio o ddifrif â'r mater gan dynnu sylw yn eu rhestr newyddion at eu cynllun *The Wales Green Route out of Recession*. Ond y pwyslais ar achub yr economi yn hytrach na'r angen i ail ystyried ein holl ffordd o fyw.

**Plaid Gomiwnyddol Cymru**: Dim sylw o gwbl ar eu prif dudalen. Ond - o ddarllen maniffesto sylweddol eu polisiau - gweld cyfeiriadau at yr angen i greu economi werdd newydd. Onid canlyniad cyfalafiaeth ddilyffethair yw argyfwng y Ddaear?

**Plaid Werdd Lloegr a Chymru**: Y blaid orau o bell ffordd gyda dadansoddiadau a pholisiau yn ymwneud â sut i gynnal y Ddaear. Dyfodol y blaned yn ganolog i'w hymdrechion. Ond siom oedd gweld ar dudalen y *'Wales region'* nad oedd eitem newyddion werth sôn amdani rhwng 27 Hydref, 2008, a 6 Ionawr , 2009. □

## Dyddiadur Nadolig Gwyrdd Chris Franks AC

**FE WNES i osod Her Gynaliadwyedd i fy hunan dros y Nadolig a'r Calan - sef cymryd camau i fod yn fwy cynaliadwy ym mhob un o weithgareddau'r Ŵyl. Dyma rai o fy nodiadau ar y profiad:**

Dylai ailgylchu fod yn rhan fawr o fywydau'r rhan fwyaf ohonom ni bellach – a bydd y 'Dolig yma'n brawf mawr i fi. Fydd 'na ddim cardiau Nadolig na bocsys anrhegion yn mynd i'r bin gwastraff yn ein tŷ ni. Dwi'n benderfynol o brofi i fi fy hun bod byw yn gynaliadwy yn rhywbeth y gallwn ni anelu ato drwy'r flwyddyn.

**Mercher, 24 Rhagfyr**

Un o'r pethau gwaethaf am y Nadolig yw'r siopa. Mae bod yn gynaliadwy yn golygu prynu cymaint â phosib o'r siopau lleol – sy'n cynnal busnesau lleol sy'n rhoi swyddi i bobl. Ro'n i'n disgwyl helynt heddiw wrth imi fynd am lysiau ar gyfer pryd 'Dolig y teulu. Ond ces i fy siomi ar yr ochr orau gyda pha mor rhwydd oedd yr holl brofiad. Da gweld bod ystod mor eang o nwyddau a gwasanaethau yn dal ar gael gan ein cyflenwyr llai a lleol.

**Gwener, 26 Rhagfyr**

Cerdded trwy Ddinas Powys neithiwr a sylwi pa mor bert roedd y lle'n edrych gyda chymaint o dai wedi'u haddurno a'r goleuadau Nadolig sydd bellach mor gyfarwydd. Ond achosodd imi feddwl faint o drydan sy'n cael ei ddefnyddio. Felly, fel rhan o fy Her Gynaliadwyedd, rwy'n gwneud ymdrech arbennig i ddiffodd popeth nad oes rhaid iddo fod ymlaen – gan gynnwys ein goleuadau Nadolig dros nos. Hefyd, diffodd y teledu wrth y wal yn lle ei adael ymlaen dros nos ar *standby*. Dw i hyd yn oed wedi dechrau checio pa rheiddiaduron sydd ymlaen mewn ystafelloedd gwag, ac atal drafftiau ffenestri.

**Llun, 29 Rhagfyr**

Dyma gyfnod y sporion bwyd rhwng Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Cyri twrci oedd hi heddiw. Mae'n bwysig bwyta beth bynnag brynwn ni. Mae gwastraffu bwyd yn golygu talu am rywbeth nad ydym yn ei ddefnyddio, ond hefyd mae'n llenwi'r safleoedd sbwriel (gan achosi nwyon gwenwynig). Felly rwy'n gwneud fy rhan trwy gompostio.

**Mercher, 31 Rhagfyr**

Gobeithio nad fydd hwn yn gwneud imi swnio'n hen ŵr blin, ond penderfynais dynnu'r cardiau 'Dolig. Dw i wrth fy modd yn cadw'r addurniadau lan mor hir â phosibl, ond mae'r cardiau'n llenwi'r lle – felly lawr â nhw, ac mae nhw i gyd gyda'r gwastraff ailgylchu. Mae gweld ein casgliad o fagiau yn gwneud imi sylweddoli faint o sbwriel sy'n gallu cael ei ailgylchu. Pe bai pawb yng



**Chris Franks, AC Bro Morgannwg Plaid Cymru, yn cychwyn ar ei Her Nadolig Gwyrdd**

Nghymru yn ailgylchu cymaint â ni dros y 'Dolig hwn, byddai'n arbed llwythi enfawr o'r safleoedd tirlenwi.

**Llun, 5 Ionawr**

Mae'r 12 dydd ar ben. Rydyn ni wedi tynnu'r addurniadau i nodi diwedd Gŵyl y Dathlu am flwyddyn arall. Dw i wedi torri'r goeden Nadolig yn ddarnau a'i gwasgaru o gylch yr ardd ble bydd yn pydru ac yn rhoi maeth yn ol i'r pridd. A dyna ddiwedd fy Her Nadolig Cynaliadwy.

Fe wnes i fwynhau'r her, ac roedd yn agoriad llygad mewn nifer o ffyrdd. Doeddwn i erioed o'r blaen wedi edrych ar bob agwedd o fywyd dros y Dolig gyda'r bwriad o dorri nôl ar wastraff. Gobeithio fy mod i wedi cynorthwyo'r amgylchedd mewn ffordd fechan, ac wedi arbed arian! □

**'FE'CH CODWYD AR GELWYDD' — Y NEGES I BOBL IFAINC GAN LENOR AMERICANAIDD**

**DR CHARLOTTE DAVIES A'I HATGOFION WRTH GROESAWU ARAITH YM MHRIFYSGOL DUKE**

**Bues i'n fyfyrwraig ym Mhrifysgol Duke yng Ngogledd Carolina yn y '60au yn astudio mathemateg ac eto yn y '70au wrth gwblhau PhD mewn anthropoleg. Pryd hynny, roeddwn yn ymwybodol o bryderon gwyddonwyr am i ni lygru'r amgylchedd gan anwybyddu'r cyfyngiadau ar adnoddau'r ddaear. Ond, rhywsut ,doedd y pryderon ddim yn torri trwodd i mi ac mae arnaf gywilydd iddi fod bron 20 mlynedd cyn i mi sylweddoli dwyster ein camdriniaeth o'n cartref planedol. Felly roeddwn i'n falch iawn i weld sylwadau'r llenor Barbara Kingsolver wrth iddi annerch myfyrwyr presennol Duke gan eu rhybuddio am yr her mae ein hesgeulustod o'r ddaear wedi gosod iddynt. Rydw i'n rhannu un peth arall gyda Barbara Kingsolver – cafodd ei magu ger Carlisle, Kentucky, sef hen gartref teuluol fy mam. Rydw i'n falch iawn i rannu rhai o'i sylwadau yn** Y Papur Gwyrdd:

# Her i'r ifainc — 'Rhaid dianc ar frys rhag drewdod y Dinosoriaid'

**UGAIN mlynedd yn ôl, dywedodd gwyddonwyr hinsawdd wrth Gyngres *[yr Unol Daleithiau]* fod allyriadau carbon heb eu ffrwyno yn adeiladu at ansefydlogrwydd trychinebus.**

*Dywedodd Cyngres, "Mae angen i ni feddwl dros hynny."*

Tua 10 mlynedd yn ddiweddarach, cytunodd cenhedloedd y byd ar Brotocol Kyoto, sef cyfres o reoliadau gyda grym cyfreithiol ar allyriadau carbon.

*Dywedodd yr Unol Daleithiau, "Mae dal angen i ni feddwl dros hynny."*

Bellach rydym yn gallu gwylio wrth i afonydd rhew ddiflannu, wrth i oleuadau bio-amrywiaeth ddiffodd, ac wrth i'r cefnforoedd droi nôl ar drefn yr oesoedd.

Roedd ychydig o raddau yn edrych mor bitw ar y thermomedr. Rydym mor dda wrth fesur pethau a datgan eu bod dan reolaeth. Sut oedd ein tywydd yn gallu troi'n llofrudd, gan ddyrnu ein harfordiroedd, a hybu heintiau newydd?

Mae hi'n argyfwng o faintioli nad ydym erioed wedi'i brofi o'r blaen.

Rydym wedi ymateb trwy ddilyn y rheolau rydym yn gyfarwydd a nhw: Effeithiolrwydd, Cadw ar Wahan. Dydyn ni ddim yn gallu arafu'n cynhyrchu a'n defnyddio: allen ni ddim ystyried gwneud hynny. Oni allem fynd adref a gosod clo gwirioneddol fawr ar y drws? Nid y tro hwn.

Cyrhaeddodd rhywbeth sy'n drech na'n *paradigm* ni. Bydd y byd yn achub ei hunan: peidiwch a'm camddeall. Nid metaffor na simile yw'r term 'tanwyddau ffosil'. Mewn termau daearegol, mae hi ar ben

… Rydyn ni'n gallu un ai symud o economi wedi'i seilio ar garbon, neu ddod o hyd i rywle arall i fyw.

Dychmygwch: fe'ch codwyd




**Barbara Kingsolver: "Dyma argyfwng nad ydym wedi profi ei debyg o'r blaen"**

gennym ar gelwydd. Pob peth rydych yn plygio mewn iddo, yn ei droi ymlaen neu'n ei ddiffodd, y bwydydd allan-o-dymor, y gerddoriaeth yn eich clustiau …

Rhoisom y byd hwn i chi gan addo i chi y gallwn ei gadw i redeg ar *ddeunydd ffosil*. Drewdod dinosoriaid. Ac mae'n dod i ben.

Dim ond yn anghytuno ar faint sydd ar ôl mae'r daearegwyr, ac mae'r gwyddonwyr hinsawdd bellach yn dweud sori – ond nid hynny yw'r pwynt. Chawn ni mo'r amser i'w ddefnyddio i gyd. Er mwyn sefydlogi'r llifogydd a'r stormydd tân, bydd rhaid i ni gyd leihau ein allyriadau carbon o 80%, o fewn degawd …



**Prifysgol Duke, yn Durham, Gogledd Carolina lle bu Barbara Kingsolver yn areithio**


Dyma fydd prif gwestiwn canolog eich bywydau fel oedolion: sut i ddianc mewn pryd rhag ffwlbri gwyllt ein dibyniaeth ar danwydd carbon.

Byddwch yn creu rheolau nad oedd modd eu hystyried o'r blaen, yn gosod cyfyngiadau ar beth y cawn ddefnyddio a bod yn berchnogion arnynt.

Byddwch yn cynnal ail-ystyriaeth radical o'r perthynas grym rhwng dynolryw a'n cynefin ...

Cawsom wared ar gaethwasiaeth, rhoisom y bleidlais i bawb. Rydym wedi gwneud pethau anodd o'r blaen … Y peth mwyaf anodd fydd perswadio'ch hunain o'r posibiliadau, a dal ati ...

Gobaith yw'r unig reswm na fyddwch yn ildio, yn llosgi beth sy'n weddill o'r llong, a mynd lawr gyda hi. Y llong yw eich bywyd. ☐



*Hamddena ar y campws* **LLUNIAU: PRIFYSGOL DUKE**

# Daear-iadur Y Papur Gwyrdd



**Beth sy' 'mlaen yng Nghymru i warchod y byd?**

## Sesiwn Garddio Organig yn Aberystwyth

CROESO brwd i newyddion o gangen Trefi Trawsnewid Aberystwyth i golofnau'r **Papur Gwyrdd** am y tro cyntaf.

Mae'r gangen yn edrych ymlaen at gynnal Sesiwn Cyfnewid Sgiliau Garddio Organig ym mis Mawrth i gynorthwyo holl arddwyr organig ardal Aberystwyth a phawb, yn wir, sy'n anelu at fod yn arddwyr organig.

Caiff y digwyddiad pleserus hwn ei gynnal yn Neuadd y Crynwyr, Penparcau, ar Sadwrn, 14 Mawrth, rhwng 2 a 4 o'r gloch.

Bydd sawl stondin planhigion a hadau ar gael, ynghyd ag amrywiaeth o gyngor, e.e., ynglyn â chompostio, rheoli chwyn a chynnal bywyd gwyllt. Ac, wrth gwrs, bydd yno luniaeth blasus.

Mae'r gangen yn cynnig helpu pobl sy'n chwilio am dir i ddechrau garddio trwy ddod o hyd i berchnogion fyddai'n hapus i roi rhannau o'u gerddi nhw ar fenthyg.



## 2009 — blwyddyn i'r sêr go iawn


CLUSTNODWYD 2009 fel Blwyddyn Seryddiaeth — a does dim ffordd well o ddod yn ymwybodol o'r Ddaear fel ein cartref planedol na gwylio'r sêr, y planedau a'r Lleuad.

Felly, mynnwch amser i fynd ambell noson gyda phâr da o *binoculars* neu sbienddrych i lecyn tywyll i godi'ch golygon at y Greadigaeth yr ydym yn rhan ohoni.

Cysylltwch â chymdeithasau seryddol Abertawe, Aberystwyth, Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Gwynedd (Bangor), a Choleg Llandrillo (ac Arfordir) am ddigwyddiadau.

**►Croeso i bawb ddod i fwynhau Noson Wylio'r Sêr yng Nghanolfan Ymwelwyr Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog am 7yh, ar 28 Mawrth.**

## YMUNWCH AG AWR Y DDAEAR — 28 MAWRTH



DIFFODD goleuadau ledled y byd yn ystod Awr y Ddaear yw nôd gweithred gan WWF y gall pawb ohonom ymuno â hi am 8.30yh ar Sadwrn, 28 Mawrth.

Bydd pobl, busnesau, ac adeiladau eiconig mewn o leia' 300 o ddinasoedd mewn 64 gwlad yn diffodd eu goleuadau am awr ar y noson honno fel prawf symbolaidd i wleidyddion faint o bryder sydd ar gael bellach ynglyn â Chynhesu Byd-eang.

Yng Nghymru, y gobaith yw y bydd 500,000 o bobl yn ymuno ag Awr y Ddaear, gydag adeiladau megis Castell Caernarfon, Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi, yr Amgueddfa Genedlaethol a Stadiwm y Mileniwm yn diffodd eu goleuadau, hefyd.

Gwahoddwyd pob un o 22 cyngor sir Cymru i ymuno â'r digwyddiad.

Y wlad gyntaf i drefnu Awr y Ddaear oedd Awstralia yn 2007 pan ddiffoddodd 2.2 miliwn o bobl eu goleuadau.

Y llynedd, ymunodd 50 miliwn o bobl â'r weithred mewn 35 o wledydd.

●DYSGWCH sgiliau ynglyn â pherllannau a thocio coed gydag Afallon Teilo – rhan o gangen Trefi Trawsnewid Llandeilo. Cynhelir cwrs arbennig ganddynt yn Ysgol Gynradd Trap, Sir Gaerfyrddin, ar 21 a 22 Chwefror. Am fwy o wybodaeth ffoniwch 01558 668013.

●CYNHELIR Pythefnos Masnach Deg rhwng 23 Chwefror a 9 Mawrth. Am ddigwyddiadau, ymwelwch â www.fairtrade.org.uk.

●DYLANWADU ar lywodraeth leol yw pwnc cwrs yng Nghaerdydd o 26 Chwefror. Am fanylion, ffoniwch Linda Phillips ar 029 2043 1723 neu ebostiwch lphillips@wcva.org.uk . Ymwelwch â www.wcva.org.uk/training.

● CYFLE yn y Rhyl i ddysgu sut i ymgyrchu'n fwy effeithiol. Cwrs yn dechrau ar 12 Mawrth. Ffoniwch Linda Phillips ar 029 2043 1723 neu ebostiwch lphillips@wcva.org.uk.

●AM amrywiaeth o weithgareddau i unigolion a theuluoedd ar ecoleg, crefftau, sgiliau tir ac ati, cysylltwch â Chanolfan Moelyci, Tregarth, Bangor: 01248 602793, ac office@moelyci.org

●CYFARFODYDD i esbonio a thrafod Ffermydd a Gerddi Cymunedol: Ferry Inn, Llanstadwell, Aberdaugleddau, 11 Chwefror; Canolfan y Cwm Gwyrdd, Aberpennar, 4 Mawrth. Ffôn: 02920 225942

## TANYSGRIFIO

**Croeso i chi danysgrifio'n bersonol os nad yw'r Papur Gwyrdd ar gael yn eich siop leol. Sieciau am £6 am 6 rhifyn (croesewir cyfraniadau ychwanegol i helpu gyda chostau postio) at: Y Papur Gwyrdd, 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX**

## HYSBYSEBION

**I hysbysebu yn Y Papur Gwyrdd, ffoniwch 01792 798162 neu ebostiwch am fanylion at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com**

## GWEFAN

**Croeso i chi ymweld â'n Gwefan sydd â phyrth i'r Byd Gwyrdd — sef: www.ypapurgwyrdd.com**

**► Croesawn erthyglau, lluniau, ac eitemau newyddion i'r** Papur Gwyrdd**. Ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com. Ffoniwch 01792 798162. Llythyrwch at 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX**

*YSGOL Y GRAIG, LLANGEFNI, YN DANGOS Y FFORDD YMLAEN*

# Mam Cymru'n gwarchod dyfodol ei phlant


**LLONGYFARCHIADAU i Gyngor Ynys Môn ar agor 'Ysgol Werdd' gynta'r sir – ysgol sy'n adlewyrchu'r math o nodweddion y bydd rhaid i drefi a dinasoedd led-led y byd eu mabwysiadu os ydym i gadw Cynhesu Byd-eang rhag rhuthro allan o reolaeth.**

Mae 300 o ddisgyblion brwdfrydig bellach yn mwynhau rhyfeddodau Ysgol y Graig, Llangefni, sef yr ysgol eco-gyfeillgar a gynlluniwyd mewn modd mor arloesol gan Dîm Gwasanaethau Pensaernïol Cyngor 'Mam Cymru.'

Ar gost o £3.7miliwn, mae gan yr ysgol lu o nodweddion arbed ynni, gan gynnwys Strwythur Pren Cynaliadwy, tyrbin gwynt a 'tho gwyrdd' a fydd yn gynefin naturiol ar gyfer planhigion a phryfed.

Bydd Ysgol y Graig yn cynhyrchu hyd at 50% o'i thrydan ei hun trwy deils ffotofoltaidd gydag unrhyw drydan dros ben yn cael ei werthu'n ôl i'r grid cenedlaethol.

Bydd yr holl oleuadau mewnol yn cynnwys lampiau ynni-



**Ysgol y Graig, Llangefni, Ynys Mon — gyda'i thô werdd sy'n gynefin i amrywiaeth o fywyd gwyllt, ac, ar y dde, tyrbin gwynt i gynhyrchu trydan**

isel.

Crewyd cyswllt troedffordd newydd o'r stâd dai cyfagos at Ysgol y Graig fel bod y plant yn medru cerdded neu feicio'n ddiogel i'r ysgol.

Sicrhawyd gostyngiad sylweddol yn y lefelau $CO_2$ o gerbydau, a gwell ddiogelwch ar y ffyrdd, gan fod safle'r ysgol newydd yn golygu llai o geir yn mynd a dod gyda phlant a rhieni.


Meddai Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Phil Fowlie, "Rydym yn byw mewn oes lle mae newid hinsawdd yn uchel ar yr agenda a bydd yr ysgol newydd hon ymysg y goreuon o ran cynaliadwyedd a dyluniad amgylcheddol."

► Eglurodd y Prifathro Glyn Roberts, "Mae gan Ysgol y Graig lawer iawn i'w gynnig i'r disgyblion. Mae'n hynod o drawiadol ac mae'r cyfleusterau heb eu hail.

"Bydd yr adeilad ynddo'i hun yn brosiect gwyddoniaeth diddorol iawn i'r plant yn ogystal â bod yn ysgol newydd wych". ■

**WRTH I'R CYNULLIAD CENEDLAETHOL BARATOI I DRAFOD STRATEGAETH GWASTRAFF CYMRU YM MIS EBRILL, MAE UN NEGES GLIR ...**

# 'Ie!' i ddulliau glan - a 'Na!' i losgyddion afiach



**Adroddiad gan HAF ELGAR**
**Cyfeillion y Ddaear**

**MAE Awdurdodau Lleol wedi gwybod bod rhaid symud i ffwrdd o dirlenwi fel modd o ddelio gyda gwastraff ers cyhoeddi targedau Ewropeaidd ym 1999.**

Ac mae nifer o gamau positif wedi eu cymryd i gyflawni hyn, a lefelau ailgylchu wedi cynyddu'n gyson ar draws Cymru.

Ond yn awr mae'n ymddangos yn argyfwng ar gynghorau gyda nifer o gynlluniau ar y gweill i ddelio â gwastraff mewn ffyrdd eraill – llosgyddion gan amlaf.

Ond sut byddai hyn yn effeithio ar yr amgylchedd a chynlluniau gwastraff ?

Ar ôl gwneud pob ymdrech i leihau neu ailddefnyddio gwastraff – gan safio deunyddiau crau, egni a charbon – ailgylchu yw'r cam nesaf yn y gadwyn.

Mae'r Gweinidog Amgylchedd Jane Davidson yn gryf o blaid ailgylchu ac am gyflwyno targed 70% o ailgylchu erbyn 2025 i bob Cyngor yng Nghymru.

Ond beth dylid ei wneud â'r gwastraff gweddilliol, a fydd ymhen degawd yn disgyn i 20-30% o holl wastraff heddiw?

Yr egwyddorion wrth ymdrin â gwastraff gweddilliol ddylai fod:

1) delio gyda gwastraff mewn ffordd sy'n cael yr effaith lleiaf niweidiol ar newid hinsawdd, a
2) trin gwastraff mor agos â phosib i'w leolbwynt.

Ond mae'r diwydiant llosgyddion yn bŵer sylweddol, rhyngwladol, gyda chwmniau PR wedi ail-frandio llosgyddion fel 'prosiectau egni o wastraff' sy'n golygu'r dewis mwyaf gwyrdd.

Dim syndod felly bod rhai Cynghorau yn gweld un llosgydd mawr fel yr ateb i'w holl broblemau. Ond er y 'sbin' gwyrdd, mae llosgyddion yn ymrwymiad i losgi sbwriel a rhyddhau nwyon gwenwynig i'r amgylchedd am ddegawdau i ddod.

Mae llosgyddion yn danfon mwyafrif carbon y gwastraff i'r aer. Dangosodd astudiaeth i Awdurdod Llundain Fwyaf (GLA) mai dyma'r opsiwn gwaethaf o ddelio â gwastraff o ran nwyon tŷ gwydr.

**Yn ffodus, mae opsiynnau gwell o drin gwastraff, e.e., Treuliad Anaerobaidd (AD) a Thriniaeth Mechanyddol a Biolegol (MBT).**

Fe wnaeth Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd ddweud yn Rhagfyr y gall AD ac MBT gyfrannu'n sylweddol at dorri allyriadau o wastraff, gyda 75% o doriadau'r sector yn dod o'r technolegau glân yma.

Ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn ddiweddar wedi cyhoeddi ariannu ar gyfer prosiectau AD.

Rhaid i Lywodraeth y Cynulliad ac Awdurdodau Lleol roi arweiniad i ddelio â gwastraff mewn modd gwyrdd a chynaliadwy, fel nad yw atebion tymor byr yn arwain at broblemau tymor hir. ■

# Mynnwch gwsg ym mynwes natur






... gan gynnwys i'r babi

# Matresi Organig gan Abaca

Abaca, Uned 1,
Parc Busnes Tŷ Croes,
Rhydaman,
Sir Gaerfyrddin SA18 3RZ

**01269 598491**
**info@abacaorganic.co.uk**

